



Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd. Gobeithio roedd eich Nadolig yn un hapus ac iach. Dyma'r diweddariadau cyfredol o'r ysgol.

### **Dychwelyd i'r Ysgol - Cadw'n Ddiogel**

Mae pob disgybl yn dychwelyd ar ddydd Iau, Ionawr 6ed. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi pob ysgol ar rybudd lefel uchel, felly mae'r pwysigrwydd osgoi trosglwyddo a lledaenu COVID-19 yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i ni gyd. Bydd ein gweithdrefnau gweithredol ac hylendid cyfredol a llym yn parhau y tymor yma. Plîs darllenwch y gweithdrefnau gweithredol sydd ar gael ar wefan yr ysgol ar [www.ysgolbroogwr.cymru](http://www.ysgolbroogwr.cymru). Gall y gweithdrefnau hyn newid, gan ddibynnu ar unrhyw ganllawiau pellach gan yr ALI a Llywodraeth Cymru, ond ein nod ni fel ysgol yw i aros ar agor ar gyfer pob disgybl, lle posib.

### **Diwrnodau HMS**

Mae gennym 3 diwrnod HMS ar ôl sef:

Llun 28 Chwefror

Gwener 29 Ebrill

Llun 20 Mehefin

### **Clybiau Brecwast ac Ar ôl Ysgol**

Bydd Clwb Brecwast yn ail-agor ar ddydd Llun, Ionawr 6ed, gan ddilyn yr un gweithdrefnau.

O ganlyniad i'r rhybudd lefel uchel rydyn wedi penderfynu gohirio ein clybiau all-gyrsiol tan hanner tymor Chwefror. Ni fydd unrhyw clwb ysgol hanner tymor yma a bydd hyn yn cael ei adolygu yn barod ar gyfer ar ôl hanner tymor.

Nid oes unrhyw newid i Glwb Bananas Menter Bro Ogwr.

### **Ychydig o nodiadau atgoffa ar ddechrau'r tymor:**

- Sicrhewch fod gennym **rifau ffôn cyfoes (cartref a symudol), cyfeiriadau a gwybodaeth** - os bu unrhyw newidiadau, anfonwch y manylion / newidiadau newydd i'r swyddfa cyn gynted â phosibl yr wythnos hon.
- Mae'r ysgol yn cychwyn yn brydlon am 9.00yb ac yn gorffen am 3.30yp. Os oes unrhyw newidiadau i drefniadau diwedd dydd, rhowch wybod i ni trwy lythyr neu ebost. Mewn argyfwng, ffoniwch swyddfa'r ysgol cyn 2.30yp gan sicrhau eich bod yn siarad ag aelod o staff a pheidio â gadael neges llais na fydd efallai'n cael ei derbyn mewn digon o amser. Mae'r ffôn yn brysur iawn yr adeg hon o'r dydd a bydd ein staff yn ateb eich galwad cyn gynted ag y gallant wneud hynny.
- Os yw'ch plentyn yn sâl, cysylltwch â'r ysgol a gadewch neges ar y llinell absenoldeb cyn 9.00yb ar bob diwrnod o salwch, gan nodi natur benodol a'r rheswm dros yr absenoldeb.
- Os yw'ch plentyn yn datblygu unrhyw symptomau COVID, dilynwch y canllawiau cenedlaethol i ynysu ac archebu prawf PCR. Os bydd plentyn yn arddangos symptomau yn yr ysgol, byddwn yn ei ynysu a chysylltir â chi ar unwaith.
  - Bydd rhieni yn cael eu hysbysu os bydd unrhyw achos positif COVID o fewn dosbarth eich plentyn, trwy lythyr Llywodreth Cymru, lle bo angen.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, p'un a yw'n addysgiadol neu'n fugeiliol, peidiwch ag oedi cyn e-bostio swyddfa'r ysgol ar [admin@ygbroogwr.pen-y-bont.cymru](mailto:admin@ygbroogwr.pen-y-bont.cymru).

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Cofion cynnes

Sharon Jayne

Pennaeth